Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 622 (Cy. 142)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 32A o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu ar ddyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir yn ei ardal. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau lleol gydweithredu a chydgysylltu â'i gilydd ac â chyrff llywodraethu perthnasol yn eu hardal i sicrhau bod dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer ysgolion a gynhelir yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod).

Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/1249 (Cy. 130)) ("Rheoliadau 2014") yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am y dyddiadau ysgol y penderfynwyd arnynt o leiaf ddwy flynedd ymlaen llaw (h.y. erbyn y diwrnod gwaith olaf ym mis Awst ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol o dan sylw).

Mae'r Rheoliadau hyn, sydd wedi eu gwneud o dan adran 32A a 210 o Ddeddf Addysg 2002, yn diwygio Rheoliadau 2014 fel bod rhaid i'r hysbysiad ar gyfer y flwyddyn ysgol 2022-23 gael ei anfon at Weinidogion Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2020. Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn debygol o fod o dan fwy o bwysau dros yr haf oherwydd lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru. Mae'r gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau tymor erbyn 31 Awst 2020 yn debygol o osod baich gweinyddol anghymesur ar awdurdodau lleol. Bydd estyn y dyddiad cau ar gyfer yr hysbysiad i 31 Rhagfyr 2020 yn lleihau'r baich gan sicrhau y gall gofynion statudol eraill sy'n ymwneud â

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

chydgysylltu dyddiadau tymhorau ysgol gael eu bodloni.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 622 (Cy. 142)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

*Gwnaed* *19 Mehefin 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *23 Mehefin 2020*

*Yn dod i rym* *16 Gorffennaf 2020*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 32A a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 a deuant i rym ar 16 Gorffennaf 2020.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014**

**2.** Mae rheoliad 4 o Reoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) daw'r ddarpariaeth bresennol yn baragraff (1);

(b) ar ddechrau paragraff (1) mewnosoder "Yn ddarostyngedig i baragraff (2),";

(**1**) 2002 p. 32. Mewnosodwyd adran 32A gan adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5). Diwygiwyd adran 210(7) gan adran 21(3)(c)(i) a (ii) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Trosglwyddwyd swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 210 i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) O.S. 2014/1249 (Cy. 130).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(2) Ar gyfer y flwyddyn ysgol 2022-2023, rhaid i awdurdod lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am yr holl ddyddiadau tymhorau y penderfynwyd arnynt ar gyfer yr ysgolion a gynhelir yn ei ardal ar gyfer y flwyddyn ysgol honno heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2020. "

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
19 Mehefin 2020